CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 5 MEDI 2017

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng I C Thomas

Cynghorwyr
W L Davies , W R Owen, A Hopcyn, E Lovgreen, C Williams, M Sarnacki, K Jones, Cai Larsen, J W Parry, K Richards, S Sage, R Thomas

Siaradwr Gwadd : Phil McGrath Rheolwr Menter Glannau Caernarfon

Croesawyd gan Y Maer (tra yn nodi buddiant personol ond gan mai cyflwyniad yn unig dim angen gadael yr ystafell)

Cafwyd diweddariad am y prosiect Glannau Caernarfon ar dair elfen sydd iddi megis:

Rheilffordd Ffestiniog ag Eryri

Yn dilyn y problemau peipen nwy mae'r gwaith oddeutu 14 wythnos yn hwyr ac felly dim yn mynd i fod yn orffenedig tan diwedd tymor Haf 2018 . Fydd angen codi ymwybyddiaeth rhag ofn bod pobl ddim yn darllen y wasg

Fydd ardal wal fideo o fewn y stesion yn dangos hanes y rheilffordd a lle i waith artistiaid lleol

Galeri 2 – sinema

Hefyd wedi cael problemau efo peipen nwy

Fydd sgrin 1 yn dal 170 a sgrin 2 yn dal 70

Mae fideo ar you tube sydd yn dangos dymchwel y twr
https://www.youtube.com/watch?v=btdXmBQ8MPQ

Ac un or dyluniadau newydd
https://www.youtube.com/watch?v=skmlAfWFTVU

Safle'r ynys
Newyddion da bod y cais TIST (Tourism infastructure) wedi bod yn llwyddiannus ac felly yn symud ymlaen i'r cymal tendro

Bedwyr Williams artisit lleol yn gweithio ar safle'r ynys yn ogystal ar rheilffordd

Bydd pobl yn medru gweld y crefftwyr wrth eu gwaith tu ôl i sgrin wydr a gofod ychwanegol i werthu deunydd debyg i beth sydd yn Galeri – ond profi'r angen gan bod rhestr aros o 2 flynedd yno

Rhagweld mai Pasg- Mehefin 2019 fydd y gwaith yma yn orffenedig

Diolchodd Y Maer iddo am ei gyflwyniad

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng E Hughes

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Wnaeth y Maer longyfarch llwyddiannau pobl y Dref yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac egluro bod llythyr priodol wedi mynd allan i'r sawl oedd yn dod i'r brig a chysylltiadau ar dref

Llongyfarch yn ogystal pobl ifanc y dref ar eu canlyniadau arholiadau

Nododd bod nifer o farwolaethau wedi bod dros gyfnod y Haf a safodd pawb er cof am y cyn Gynghorydd Meirion Hughes

Roedd Y Maer wedi mynychu
Sul Y Maer Dinbych
Cyngerdd COr Meibion Caernarfon
Sul Y Maer Biwmares
Ras y Trên (diolch i'r Dirprwy am fynychu)
Cyngerdd Capel Seilo
Conwy River Festival
Sioe Flodau Dinbych
Diwrnod o hwyl Cae Glyn

3. **Datgan Buddiant Personol**

Cyng I C Thomas – y siaradwr gwadd

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Gohebiaeth gan Cyng G Thomas

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor 4 Gorffennaf 2017
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir (unfrydol)

6. **Cyfrifon**

Hawl i weithredu

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth gan mai hawl i weithredu oedd (unfrydol)

7.Cysoni Cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

8. Coflyfr 'Ombwdsman'

'copi ar y bwrdd'
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

9. Unllais Cymru

Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned
Penderfynwyd
Mabwysiadu'r ddogfen a newid unrhyw ddogfennau perthnasol (unfrydol)

10. Rhybudd o Gynnig Cyng. Eleri Logreen

Pâr: Eisteddfod Genedlaethol 2021
YN dilyn llythyr Tachwedd 2016 i Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd

Gofyn i Cyngor Gwynedd edrych yn fanwl ar trefniadau Caerdydd gan y byddai mewn fformat tebyg pe bai yn dod i Gaernarfon yn 2021 gan hyrwyddo Cymreictod yr ardal (unfrydol)

11. **Llythyr gan Cyngor Gwynedd**

Pâr: Toiledau Cyhoeddus Allt y Castell, Empire, Penllyn

Penderfynwyd

Cyfrannu eto flwyddyn nesaf ar yr amod bod trafodaethau am y toiledau yn cychwyn yn amserol , ac hefyd gofyn iddynt edrych ar safon y toiledau er mwyn gweld gwerth am ein harian (unfrydol)

12. **Rhybudd o Gynnig Cyng. C. Williams**

Pâr: Cysgodfan Bws Rhosbodrual
Cafwyd eglurhad am bryderon trigolion . Roedd Cyng J W Parry yn cefnogi'r rhybudd gan ei fod ar ei ward o

Penderfynwyd

Cefnogi cynnwys y rhybudd gan ofyn am ymweliad safle gyda'r ddau gynghorydd a'r clerc ynghyd a swyddogion priodol Cyngor Gwynedd i weld pa opsiynau sydd yn bosib ac unrhyw gostau (unfrydol)

13. **Llythyrau Cyngor Gwynedd**

i) Problemau Baw cwn
ii) Glanweithdra ac ysbwriel gan gynnwys adroddiad Cyng. Ann Hopcyn

Nodwyd bod Cyngor Gwynedd yn awyddus iawn i Gydweithio ar y pwnc. Maent am Ddod a bocs o fagiau baw cwn i lawr i'r swyddfa ac yn annog datganiad i'r wasg ar y cyd. Annog pawb i gysylltu a Galw Gwynedd i nodi problemau penodol – ond angen sicrhau manylder lleoliad ac amser ayyb. Wedi cynnig ymweliad a safle ailgylchu ac hefyd Safle Clynnog i Gynghorwyr weld yn union beth sydd yn digwydd yn y ddau le

Penderfynwyd
Diolch i'r Cyng A Hopcyn am yr adroddiad.Symud ymlaen ar datganiad ir wasg ar y cyd. Cynghorwyr sydd a diddordeb i fynychu y ddau safle i adael i'r clerc wybod mor fuan a sy phosib (unfrydol)

14. **Heddlu Gogedd Cymru**

Cadw Cymru'n Ddiogel
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

15. **Unllais Cymru**

Cynllun Grantiau Cymraeg 2050
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth ond siomedig derbyn yn uniaith Saesneg (unfrydol)

16. Rhybudd o Gynnig Cyng. K.Richards
Pâr: Twmpath cyflymder
Nododd Cyng J Parry bod o eisoes mewn trafodaeth ar y mater ac wedi bod yn tynnu lluniau
Penderfynwyd
Cefnogi'r rhybudd a gofyn am ymweliad safle (unfrydol)

17. **Adroddiad Cyng. W. T. Owen**
Cyfarfod Unllais
Penderfynwyd
Gan nad oedd Cyng W T Owen yn bresennol symud i'r Cyngor Nesaf (unfrydol)

18. Cwestiynau
Dim

19. Gohebiaeth gan Cyng G Thomas
Nodwyd mewn llythyr i'r Maer bod Cyng G Thomas yn ymddiswyddo .
Penderfynwyd
Gyda siom i dderbyn yr ymddiswyddiad ac i gymeryd y camau priodol ac mi fyddai'r Maer yn ysgrifennu ato i ddiolch iddo am ei wasanaeth

Gorffenodd y cyfarfod am 18.56

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....